


## JEREMY, WALTER DAVID (1825 - 1893), bargyfreithiwr



**Enw:** Walter David Jeremy  
**Dyddiad geni:** 1825  
**Dyddiad marw:** 1893  
**Rhiant:** John David Jeremy  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bargyfreithiwr  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith  
**Awdur:** John David Jones

Ganwyd yng Nghwmbedw, Pencarreg, 5 Mai 1825, mab hynaf y **Parch. John Jeremy**. Bu yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin (1841-5); Prifysgol Glasgow (1845-8) - graddiodd yn M.A. (1858) gydag anrhydedd yn y clasuron ac athroniaeth. Wedi tymor fel athro teuluol aeth yn weinidog capel Undodwyr Northampton (1851-2). Barnodd yn ddoeth fod ei gymwysterau yn ei dueddu tuag at y gyfraith. Daeth yn 'Bencher' (Gray's Inn) yn 1887. Ni charai gyhoeddusrwydd, ond bu ei wybodaeth o'r gyfraith o help dirfawr i Anghydfurfiaeth Cymru, yn arbennig trwy ei ddiddordeb yng Ngholeg Caerfyrddin, Coleg Annibynnol y Bala, ac ysgol Dr. Williams, Dolgellau. Gwasanaethodd ar y Dr. Williams's Trust a'r Bwrdd Presbyteraidd. Cyhoeddodd *Digest of the Proceedings in Chancery of the Dr. Williams's Trust a History of the Presbyterian Fund and Dr. William's Trust*. Bu farw 18 Medi 1893.

### Awdur

**Y Parchedig John David Jones**, (1898 - 1959)

### Ffynonellau

*The Inquirer*, 30 Medi 1893

E. Pan Jones, *Oriel Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin: yn cynwys hanes yr holl fyfyrwr fu yn y coleg o 1796 hyd 1899*(Merthyr Tydfil 1909), 60

*The Unitarian Students at the Presbyterian College, Carmarthen 1796-1901* (1901), 44

Walter J. Evans, NLW MS 10327B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734556](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodiwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government